ALLWEDD DIWYLLIANT YW IAITH

YSGOL GYMRAEG BRYNIAGO

# Polisi Derbyn Plant

**Dyddiad adolygu a mabwysiadu:**

**Date reviewed and adopted:** **07.10.2025**

**Dyddiad yr adolygiad nesaf:** **Hydref 2026**

**Date of next review:** **Autumn 2026**

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:**

**Signature of chair of governors:**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

**Polisi Derbyn Plant**

Yr Awdurdod Lleol, yr ALl, yw'r awdurdod derbyn ar gyfer holl ysgolion cymunedol yr ardal.

**Derbyn Plant i Ysgol Gymraeg Bryniago**

Gwahoddir pob plentyn sydd ar fin dechrau addysg amser llawn i wneud cais am le mewn ysgol a gynhelir gan yr ALl.

Gall rhieni/gofalwyr naill ai gwneud cais ar-lein am le yn ysgol y dalgylch neu fynegi dewis am le mewn ysgol arall. Caniateir ceisiadau am le os na fydd gwneud hynny yn:

- peryglu darparu addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau, ac
- ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, bod yn anghydnaws â'r trefniadau derbyn y cytunwyd arnynt rhwng y Corff Llywodraethu a'r ALl.

Rhoddir y flaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n gwneud cais am le mewn unrhyw ysgol mewn pryd.

**Cyfyngiadau Derbyn**

Mae'n rhaid i bob ysgol dderbyn plant hyd at ei nifer derbyn ym mlwyddyn y derbyn (h.y. dosbarth Derbyn mewn ysgolion cynradd) Ym mlwyddyn y derbyn, gwrthodir lle i blentyn ar ôl cyrraedd y Rhif Derbyn. Nifer derbyn Ysgol Gymraeg Bryniago yw 31. Os gwrthodir lle yn yr ysgol, mae'n rhaid rhoi hawl apelio i'r rhieni/gofalwyr hynny.

**Meini Prawf Gorymgeisio**

Os cafwyd mwy o geisiadau mewn ysgol na'r lleoedd sydd ar gael, bydd y drefn flaenoriaeth ganlynol yn berthnasol:

1. Plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu a oedd yn arfer derbyn gofal*.

2. Plant sy'n byw yn nalgylch penodol yr ysgol. (ardal Pontarddulais, Pontlliw, Garnswllt a Waungron).

Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.

3. Plant y mae eu brawd neu eu chwaer yn mynd i'r ysgol ar adeg eu derbyn.*** Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**.

4. Plant eraill y gwnaed cais am le drostynt nad yw meini prawf 1 i 3 uchod yn berthnasol iddynt. Os bydd mwy o geisiadau na lleoedd, caiff y lleoedd eu dyrannu yn ôl pellter, gyda'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol (y daith gerdded fyrraf) yn cael blaenoriaeth**

*Plant a oedd yn arfer derbyn gofal: plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach gan eu bod wedi cael eu mabwysiadu, wedi bod yn destun gorchymyn preswyl neu orchymyn gwarcheidwadaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Mesurir y pellter o'r tu allan i fynedfa'r eiddo (tŷ neu fflat) i fynedfa swyddogol agosaf yr ysgol. Defnyddir rhaglen gyfrifiadur GIS yr Awdurdod Lleol i fesur y pellter.

***Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn naturiol neu blentyn sydd wedi'i fabwysiadu'n gyfreithlon gan y naill riant neu'r llall sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Mewn unrhyw sefyllfa pan fydd un lle ar gael ac mae'r plant cymwys nesaf ar gyfer y lle hwnnw'n efeilliaid/tripledi, bydd yr ALl yn derbyn y ddau/tri phlentyn.
Ni fydd yr ALl yn darparu cludiant nac yn cyfrannu at gostau cludiant ar gyfer y plant sy'n cael eu derbyn o'r tu allan i ddalgylch penodol yr ysgol. Fodd bynnag, os yw grŵp blwyddyn ysgol y dalgylch yn llawn, darperir cludiant i'r ysgol agosaf â lle, os yw'r ysgol yn fwy na 2 filltir o'r cartref.

**Plant sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig**

Nid yw'r meini prawf gorymgeisio'n berthnasol i ddisgyblion y mae gan yr ALl Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ar eu cyfer, ond mae hawliau'r rhieni I fod yn rhan o leoli eu plant wedi'u hamddiffyn gan y gyfraith. Bydd yr ALl, mewn ymgynghoriad â rhieni/gofalwyr ac ysgolion, yn penderfynu ym mha ysgol y caiff yr addysg ei darparu. Mae'r ALl yn cadw'r hawl i enwi ysgol nad yw'n ysgol y dalgylch. Mae gan ysgolion ddyletswydd i dderbyn plant â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi'u rhoi mewn ysgol gan yr ALl a chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif tuag at y nifer a dderbynnir hyd at y nifer derbyn, oni bai eu bod yn cael eu rhoi mewn Cyfleuster Addysgu Arbenigol â lleoedd cynlluniedig.

**Hawl i Apelio**

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu trwy lythyr a fu eu cais yn llwyddiannus. Os gwrthodwyd eu cais, hysbysir rhieni/gofalwyr drwy lythyr bod ganddynt hawl i apelio i Banel Apêl Annibynnol. Os byddant yn dewis arfer yr hawl honno, rhaid cyflwyno'r apêl i'r Tîm Ysgolion a Llywodraethwyr yn y Ganolfan Ddinesig erbyn dyddiad arbennig *gweler gwefan yr AALl.. Caiff yr apêl ei ystyried gan Banel Apêl Annibynnol sy'n cynnwys 3 i 5 person, sef pobl leyg a phobl â phrofiad o faes addysg.
Sylwer: Oherwydd uchafswm statudol maint dosbarthiadau, sef 30, prin iawn yw'r amgylchiadau lle gall apêl am le mewn dosbarth babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) lwyddo.

**Rhestrau Aros**
Gyda phob cais, os gwrthodir cais rhieni/gofalwyr am le i'w plentyn mewn ysgol, caiff y plentyn ei roi ar y rhestr aros yn awtomatig a chynigir cyfle i gwrdd â Phanel Apêl Annibynnol. Cedwir enwau'r plant ar y rhestr aros am y flwyddyn academaidd gyfan

a chânt eu dileu dim ond os ceir apêl lwyddiannus neu os yw rhiant yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad yw'n dymuno i enw ei blentyn fod ar y rhestr aros bellach. Os daw lle ar gael, caiff ei ddyrannu gan yr ALl yn unol â'r meini prawf gorymgeisio.
Ni fydd rhaid i'r ALl gydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegwyd fel arall ond yn unol â'i drefniadau'n unig.

Sylwer: Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn cynnal ymgynghoriad er mwyn cynnig newidiadau i nifer o ddalgylchoedd.

Estynir gwahoddiad i rieni sydd yn ystyried danfon eu plant i Ysgol Gymraeg Bryniago i ymweld â’r ysgol drwy apwyntiad gyda’r pennaeth.

**Mae gwybodaeth a chanllaw pellach ar y broses dderbyn plant i’w gael ar wefan yr ysgol:**

**Dolen i wefan YGG Bryniago**